

## **ADRODDIAD I'R CABINET**

10 Mehefin 2014

**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd R Hywel Wyn Williams

**Pwnc:** Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

### **Y penderfyniad a geisir**

Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion wedi bod yn gweithredu'r Polisi Strategol cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2013. Mae'r adroddiad amgaaedig yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i wireddu polisi hwn. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet i'r camau hyn.

---

### **Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol

---

### **Cyflwyniad**

Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru fod pob cyngor yn datblygu strategaeth ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Pwrpas y strategaeth fydd bodloni aelodau a swyddogion arweiniol fod gan staff y Cyngor ymwybyddiaeth o faterion diogelu ac y byddant yn ymateb yn briodol ac effeithiol iddynt.

### **Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Bod disgwyliad strategol i weithredu yn y maes yma  
Bod y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion wedi paratoi polisiâu corfforaethol ac adrannol; cadarnhau trefniadau priodol ar gyfer gwiriadau DBS wrth benodi, trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ymhlith aelodau a staff a bod trefniadau monitro'n cael eu datblygu i sicrhau fod staff yn ymateb yn briodol ac effeithiol i faterion diogelu.

## **Ystyriaethau perthnasol**

Mae datblygiad y strategaeth Diogelu wedi cael ei arolygu'n ddiweddar gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r CSSIW. Mae ymateb ysgrifenedig Estyn wedi ei dderbyn ac yn cymeradwyo'r gwaith sydd wedi ei gynnal hyd yma ond yn nodi'r angen i ddatblygu ffyrdd o fonitro dealltwriaeth staff o'r gweithdrefnau ac yn eu gweithredu. Nid yw ymateb ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru na'r CSSIW wedi dod i law eto.

## **Camau nesaf ac amserlen**

Bydd angen i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion lunio ei raglen weithredu ar gyfer y flwyddyn 2014-15 ar sail y gwaith sydd wedi eu cwblhau o'r rhaglen eleni ac adborth gan y cyrff rheoleiddio. Rhagwelir datblygiad dulliau monitro yn sgil argymhelliad Estyn, cadarnhau rhaglenni hyfforddiant a sicrhau fod aelodau a staff yn mynychu'r mesurau codi ymwybyddiaeth briodol.

---

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Prif Weithredwr:**

Mae'n bwysig iawn bod y Cabinet yn bodloni ei hun ar gynnydd gyda'r gwaith diogelu gan mai'r Cabinet ei hun a awdurdododd y trefniadau hynny. Fel mae'r adroddiad yn crybwyll, rydym wedi medru manteisio ar farn allanol ar y trefniadau hyn yn y misoedd diwethaf ac mae'r ymateb a dderbyniwyd hyd yn hyn yn awgrymu ei fod yn symud i'r cyfeiriad iawn er bod peth gwaith eto i 'w wneud. Wrth gwrs, mewn gwirionedd, mae'r DASG o gadw llygad a sicrhau trefniadau diogelu yn un y mae angen cadw golwg arno yn barhaus.

### **Y Swyddog Monitro:**

Sefydlwyd y Panel Diogelu gan y Cabinet yn Nhachwedd 2012 er mwyn cael sicrwydd o drefniadau llywodraethu cadarn yn y maes diogelu plant ac oedolion. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Panel er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i oruchwylio'r trefniadau. 'Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yma yn fodd o ganiatáu i hynny ddigwydd.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod yr adroddiad gerbron yn adrodd yn ôl-syllol ar gamau sydd wedi eu cymryd i wireddu polisi strategol Diogelu Plant ac Oedolion, a ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r camau hyn. Bydd y Panel Strategol Diogelu a'r gwaith perthnasol a rôl yn parhau, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Strategol, ond bydd modd gweithredu a chyflawni fel bo angen o fewn adnoddau cyfredol. Felly, er eglurder, cadarnhaf nad oes cais yma am ddarpariaeth adnoddau i'r perwyl, tu hwnt i beth sydd eisoes yn ei le

---

**Atodiadau:**

Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion